# Holiadur Landlordiaid

## 1. Ymatebion i'r holiadur

Derbyniwyd 26 o ymatebion i'r holiadur.

### 1.1. Cwestiwn 1: Sut ydych chi'n sicrhau bod eich tenantiaid yn gwneud defnydd llawn o Wasanaeth Gwastraff ac Ailgylchu Gwynedd?


Derbyniwyd ymatebion amrywiol i'r cwestiwn yma. Mae'r atebion wedi grwpio mewn i themâu penodol isod.

Dewisodd 26 o unigolion ymateb i'r cwestiwn yma (gyda rhai sylwadau yn disgyn i mewn i ddau themâu neu fwy).

| | **Nifer** |
|---|---|
| Darparu biniau cywir / calendrau gwastraff | 11 |
| Cyfarfod wyneb yn wyneb / darparu pecyn croeso ar y cychwyn | 4 |
| Ddim yn gyfrifoldeb ar y landlordiaid | 3 |
| Tenant yn y tŷ ers blynyddoedd | 3 |
| Annog ailgylchu / gwneud yn siŵr eu bod yn ymwybodol | 3 |
| Eu hatgoffa drwy ddefnyddio Grŵp Facebook | 1 |
| Cwmni allanol yn gyfrifol am rhentu | 1 |
| Sylw ddim yn berthnasol | 3 |
| **Cyfanswm** | 29 |


### 1.2. Cwestiwn 2: A ydych chi'n ymwybodol y gellir gosod dirwyon am beidio ag ailgylchu'n gywir?

Er ei fod yn agos, gweler fod nifer uwch o'r ymatebwyr (N=14, 54%) yn ymwybodol y gellir gosod cosb am beidio ag ailgylchu'n gywir.




### 1.3. Cwestiwn 3: A ydych chi'n rhoi cyfarwyddiadau clir i'ch tenantiaid ar y rheolau ar gyfer ailgylchu a pha mor bwysig yw hi i gadw atynt?

Gweler fod y mwyafrif o ymatebwyr (N=16) wedi nodi eu bod yn rhoi cyfarwyddiadau clir i'w tenantiaid.




Gofynnwyd i'r rhai oedd wedi ateb ‘Ydw’ (N=16) egluro eu hateb. Mae'r atebion wedi grwpio mewn i themâu penodol isod (gyda rhai sylwadau yn disgyn i mewn i ddau themâu neu fwy).

| | Nifer |
|---|---|
| Cyfarwyddiadau llafar | 9 |
| Gwybodaeth ysgrifenedig / pamffled neu galendr Cyngor Gwynedd | 6 |
| Eu hatgoffa drwy tudalen Facebook | 1 |
| Cytundeb Tenantiaid | 1 |
| Dylai'r Cyngor ddarparu pamffled gwybodaeth | 1 |
| **Cyfanswm** | 18 |


### 1.4. Cwestiwn 4: Ble mae eich tenantiaid yn cadw eu biniau / troli ar ddiwrnodau pan nad ydynt yn cael eu casglu, ac a oes gan eich eiddo lle penodol ar gyfer cadw biniau / troli?

Derbyniwyd ymatebion amrywiol i'r cwestiwn yma. Mae'r atebion wedi grwpio mewn i themâu penodol isod. (gyda rhai sylwadau yn disgyn i mewn i ddau thema neu fwy).

| | Nifer |
|---|---|
| Cefn y tŷ / gardd gefn | 10 |
| Blaen y tŷ / gardd blaen | 6 |
| Shêd / garej / man penodol ar gyfer y biniau | 6 |
| Cegin / tu mewn i'r fflat | 2 |
| Problem gyda lle cadw biniau | 1 |
| Sylw ddim yn berthnasol | 3 |
| **Cyfanswm** | 28 |


### 1.5. Cwestiwn 5: A ydych yn ymwybodol y gellir gosod cosb ar gyfer gadael biniau / troliau allan ar y palmant ar ddiwrnodau pan nad ydynt yn cael eu casglu?

Er ei fod yn agos, gweler fod nifer uwch o'r ymatebwyr (N=14, 54%) yn ymwybodol y gellir gosod dirwy ar gyfer gadael biniau / troliau ar y palmant ar ddiwrnodau pan nad ydynt yn cael eu casglu.




## 1.6. Cwestiwn 6: A yw'ch tenantiaid yn cysylltu â chi ynglŷn â'r gwasanaeth gwastraff ac ailgylchu?

Gweler fod y mwyafrif o ymatebwyr (N=25, 96%) yn nodi nad oedd eu tenantiaid yn cysylltu gyda hwy ynglŷn â’r Gwasanaeth Gwastraff ac Ailgylchu.





Gofynnwyd i’r sawl oedd wedi ateb ‘Ydy’ (N=1) egluro pa fath o ymholiad sydd ganddynt. Dyma oedd yr ymholiad:

“Pam mai dim ond unwaith pob tair wythnos mae’r Cyngor yn casglu gwastraff?” (Mae’r ymatebwr yn nodi ei fod yn egluro wrth y tenantiaid os ydyn nhw’n ailgylchu pob peth yna mae unwaith pob tair wythnos yn ddigon).”

## 1.7. Cwestiwn 7: Fel landlord, ydych chi'n ymwybodol bod Cyngor Gwynedd yn cynnig Gwasanaeth casglu gwastraff swmpus lle byddwn yn casglu eitemau mawr fel soffa, rhewgell am ffi fach?

Gweler fod y mwyafrif o ymatebwyr (N=23) yn ymwybodol bod Cyngor Gwynedd yn cynnig Gwasanaeth casglu gwastraff swmpus.




## 1.8. Cwestiwn 8: A oes gennych unrhyw welliannau ar gyfer y gwasanaeth gwastraff ac ail-gychu? Nodwch eich sylwadau isod os gwelwch yn dda.

Dewisodd 14 o unigolion ymateb i'r cwestiwn yma.

Mae'r atebion wedi grwpio mewn i themâu penodol isod (gyda rhai sylwadau yn disgyn i mewn i ddau thema neu fwy).

| | Nifer |
|---|---|
| Staff ddim gwagio/ malu'r biniau / problemau blerwch ar ôl y casgliad | 5 |
| Problemau gyda'r biniau – safon, angen labeli clir ag ansawdd y bagiau bin bwyd | 3 |
| Angen gwell trefniadau i ailgylchu plastig | 2 |
| Gwell cyfarwyddiadau / gwybodaeth ar bamffledi | 1 |
| Cosbi pobl / 'bin checks' | 1 |
| Hapus efo'r gwasanaeth | 1 |
| Angen Polisi diwrnod gwyntog | 1 |

| | |
|---|---|
| Oriau agor y canolfannau ailgylchu yn anaddas (10yb – 4yp) | 1 |
| Problem gyda'r bin yn bell o'r tŷ (ar ffarm) | 1 |
| **Cyfanswm** | 16 |

### 1.9. Cwestiwn 9: A oes gennych unrhyw sylwadau pellach i'w wneud ynglŷn â'r gwasanaeth gwastraff ac ailgylchu? Nodwch eich sylwadau isod os gwelwch yn dda.

Dewisodd 10 o unigolion ymateb i'r cwestiwn yma.

Mae'r atebion wedi grwpio mewn i themâu penodol isod (gyda rhai sylwadau yn disgyn i mewn i ddau thema neu fwy)


| | **Nifer** |
|---|---|
| Staff yn flêr / blerwch ar ôl casgliadau | 3 |
| Cyfrifoldeb y tenant i ailgylchu – nid y landlord | 3 |
| Gwasanaeth da yn Canolfan Ailgylchu Pwllheli | 2 |
| Anghytuno gyda tâl gwastraff gardd | 2 |
| Gellir casglu ailgylchu llai aml | 1 |
| Anodd ailgylchu a dim cymorth gan y Cyngor | 1 |
| **Cyfanswm** | 12 |

## 2. Lleoliad a nifer o eiddo gan yr ymatebwyr

### 2.1 Lleoliad

Roedd nifer uchel o'r ymatebwyr (N=5) yn landlordiaid ar dai yn ardal Caernarfon.


Roedd y sampl yn rhy fach i'w gymharu yn llawn ond ar y cyfan ni welwyd unrhyw wahaniaeth sylweddol rhwng ymatebion i'r holiadur o wahanol ardaloedd.




## 2.2 Nifer o eiddo

Roedd yr ateb yn amrywio rhwng 1 i 5 eiddo. Nododd y mwyafrif (N=11) mai un eiddo oedden nhw'n rhentu.

Roedd y sampl yn rhy fach i'w gymharu yn llawn ond ar y cyfan ni welwyd unrhyw wahaniaeth sylweddol rhwng ymatebion i'r holiadur yn ôl nifer yr eiddo oeddent yn ei rhentu.



**Yr Holiadur**

Mae Cyngor Gwynedd eisiau annog mwy o bobl y Sir i wneud defnydd llawn o'r gwasanaeth ailgylchu a chompostio am dri brîf reswm:

- Yn bennaf, i leihau effaith negyddol ar ein hamgylchedd.
- Er mwyn lleihau costau i'r Cyngor gan fod ailgylchu a chompostio yn rhatach na chladdu mewn safleoedd tirlenwi.
- Er mwyn osgoi dirwyon a chostau sylweddol gan y Llywodraeth am gladdu sbwriel mewn safleoedd tirlenwi ac am fethu targedau ailgylchu a chompostio cenedlaethol.

Ar hyn o bryd mae rhaid i gynghorau Cymru ailgylchu neu gompostio 58% o'r holl wastraff sy'n cael ei gasglu o'n cartrefi. Bydd targed nesaf yn 64% erbyn Mawrth 2020.

Bellach mae rhaid i Gyngor Gwynedd annog llawer mwy o drigolion i ailgylchu a chompostio ein gwastraff neu fel arall, gallai Cyngor Gwynedd gychwyn derbyn cosb ariannol sylweddol iawn.

Gofynnwn yn garedig i chi ateb y cwestiynau isod **fel landlord** gydag eiddo yng Ngwynedd.

1) Sut ydych chi'n sicrhau bod eich tenantiaid yn gwneud defnydd llawn o Wasanaeth Gwastraff ac Ailgylchu Gwynedd?

2) A ydych chi'n ymwybodol y gellir gosod dirwyon am beidio ag ailgylchu'n gywir?

   Ydw / Nac Ydw

3) A ydych chi'n rhoi cyfarwyddiadau clir i'ch tenantiaid ar y rheolau ar gyfer ailgylchu a pha mor bwysig yw hi i gadw atynt?

   Ydw / Nac ydw

   Os ydych, sut ydych chi'n gwneud hyn?

4) Ble mae eich tenantiaid yn cadw eu biniau / troli ar ddiwrnodau pan nad ydynt yn cael eu casglu, ac a oes gan eich eiddo lle penodol ar gyfer cadw biniau / troli?

5) A ydych yn ymwybodol y gellir gosod dirwyon ar gyfer gadael biniau / trolïau allan ar y palmant ar ddiwrnodau pan nad ydynt yn cael eu casglu?

   Ydw / Nac Ydw

6) A yw'ch tenantiaid yn cysylltu â chi ynglŷn â'r gwasanaeth gwastraff ac ailgylchu?

   Ydy / Nac Ydy

   Os Ydy, pa fath o ymholiadau sydd ganddynt?

7) Fel landlord, ydych chi'n ymwybodol bod Cyngor Gwynedd yn cynnig Gwasanaeth casglu gwastraff swmpus lle byddwn yn casglu eitemau mawr fel soffa, rhewgell am ffi rhesymol?

   Ydw / Nac Ydw

8) A oes gennych unrhyw welliannau ar gyfer y gwasanaeth gwastraff ac ail-gychu? Nodwch eich sylwadau isod os gwelwch yn dda.

9) A oes gennych unrhyw sylwadau pellach i'w wneud ynglŷn â'r gwasanaeth gwastraff ac ailgylchu? Nodwch eich sylwadau isod os gwelwch yn dda.

Nodwch leoliad(au) eich eiddo, e.e Bangor, Tywyn a nifer yr eiddo rydych chi'n eu rhentu allan os gwelwch yn dda.